ARHOLIADAU 360°

Golwg agosach ar **ffiniau gradd**

Pan fydd y marcio wedi gorffen, bydd y broses ddyfarnu yn dechrau, lle y mae ffiniau gradd ar gyfer arholiadau ac asesiad heb arholiad yn cael eu gosod. Nod y broses ddyfarnu yw sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae byrddau arholi yn defnyddio pwyllgor dyfarnu, sy'n cynnwys grŵp o uwch arholwyr sy'n arbenigwyr yn y pwnc hwnnw, i gynnal y broses.

Bydd yw ffiniau gradd?

Ffiniau gradd yw'r marc isaf sy'n ofynnol ar gyfer gradd benodol. Er enghraifft, byddai ffin C o 50 yn golygu eich bod chi angen 50 marc i gael gradd C.

Gosodir ffiniau gradd ar ôl sefyll yr arholiadau ac er y gallai fod gan bob cyfres arholi ffiniau gradd tebyg, maen nhw'n annhebygol o fod yn union yr un fath bob tro.

Pam y mae ffiniau gradd yn newid?

Anela byrddau arholi bob amser at ddatblygu papurau cwestiwn â'r un lefel o anhawster blwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn amlwg byddai'n annheg i fyfyrwyr gael gradd is dim ond oherwydd iddynt sefyll papur anos.

Serch hynny, mae'n anodd iawn – bron yn amhosibl – cynhyrchu papurau arholi sydd yr un mor anodd â'i gilydd yn union. Am y rheswm hwn, ar gyfer pob cyfres arholi, mae ffiniau gradd newydd yn cael eu gosod ar gyfer pob papur arholi. Dyma pam y mae ffiniau gradd yn gallu gwahaniaethu bob blwyddyn ac ar gyfer pob arholiad.

Sut y mae byrddau arholi yn gosod ffiniau gradd?

Unwaith y mae'r holl farcio wedi'i gwblhau, mae'r pwyllgor dyfarnu yn cwrdd i argymell lle i osod ffiniau gradd eleni. Mae angen iddynt gydbwyso ystod o dystiolaeth wrth benderfynu lle i argymell y ffiniau gradd. Yn benodol, rhaid i'r argymhellion ystyried cydbwysedd y dystiolaeth ystadegol a barn yr arholwr ar waith y myfyriwr.

continued...

Mae'r pwyllgor yn anelu at ganfod marc ar gyfer gwaith eleni sy'n adlewyrchu orau'r safon y cafodd y ffin gradd ei gosod arni y llynedd. Er mwyn gwneud hyn mae'n edrych ar waith myfyriwr o eleni ar y ffin gradd arfaethedig ac yn ei gymharu â gwaith myfyrwyr o'r llynedd oedd ar yr un ffin gradd.

Er mwyn gwneud cymhariaeth deg, mae angen i'r pwyllgor wybod, yn gyffredinol, bod y grŵp o fyfyrwyr a gymerodd yr arholiad eleni yn debyg i'r grŵp a'i cymerodd y llynedd. Defnyddia ystadegau am nodweddion y ddau grŵp o fyfyrwyr i wneud hyn, megis oed a pherfformiad mewn arholiadau blaenorol.

Mae'r pwyllgor dyfarnu hefyd yn derbyn gwybodaeth ystadegol am yr arholiadau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o farciau y mae myfyrwyr yn eu cyflawni ar bob cwestiwn unigol ac arwydd o le y gellid gosod ffiniau gradd er mwyn cyflawni canlyniadau cyffredinol tebyg i arholiadau'r llynedd.

Defnyddia'r pwyllgor y math hwn o dystiolaeth i helpu i arwain ei benderfyniadau, yn enwedig pan fydd newidiadau i'r cymwysterau.

Pan fydd cymwysterau newydd yn cael eu cyflwyno, mae myfyrwyr yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn debyg o gael marciau is yn yr arholiadau na'r rheini yn y blynyddoedd blaenorol a oedd yn fwy cyfarwydd â'r arholiadau. Mae'r pwyllgor dyfarnu yn defnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael iddo i adnabod pa addasiad sy'n ofynnol er mwyn caniatáu ar gyfer yr effaith hon.

Lle ceir tystiolaeth i gefnogi newid, gallai ffiniau gradd gael eu gostwng i wneud iawn am ostyngiad ym mherfformiad myfyrwyr sy'n sefyll y cymwysterau newydd.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth yn ofalus, mae'r pwyllgor dyfarnu yn argymell y marc isaf sy'n ofynnol ar gyfer pob gradd i sicrhau bod y safonau sy'n ofynnol ar gyfer eleni yr un peth â'r blynyddoedd blaenorol.

Yna bydd y bwrdd arholi yn cynnal gwiriadau ansawdd i sicrhau bod y pwyllgor wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a bod modd cyfiawnhau'r penderfyniadau ffin gradd.

Yna mae'r ffiniau gradd terfynol yn cael eu hadolygu a'u cytuno gan swyddog cyfrifol y bwrdd arholi. Mae'r bwrdd arholi yn prosesu'r ffiniau gradd hyn ac yn cyfrifo'r radd y mae pob myfyriwr wedi'i chyflawni.

Mae'r broses hon yn golygu y dylai myfyrwyr a berfformiodd i'r un lefel dderbyn yr un radd, p'un a wnaethant sefyll yr arholiad eleni neu'r llynedd.

Pa rôl sydd gan Gymwysterau Cymru?

Mae Cymwysterau Cymru yn monitro ac yn goruchwylio'r broses ddyfarnu. Cyn y bydd dyfarniad am gymhwyster yn cael ei gadarnhau, rhaid i'r byrddau arholi adrodd eu canlyniadau wrthym ni. Os yw'r canlyniadau cyffredinol yn wahanol i'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl, gofynnwn i'r bwrdd arholi esbonio pam. Os nad ydym yn fodlon, gallwn ofyn i'r bwrdd arholi edrych eto ar y dyfarniad neu gynnal dadansoddiad ychwanegol i gadarnhau ei ddyfarniad arfaethedig.

Os yw'r arholiadau yn cael eu cymryd yng Nghymru, mae'r broses yn cael ei goruchwylio gennym ni. Os yw'r arholiadau yn cael eu cymryd ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r broses hon yn cael ei goruchwylio ar y cyd gan y rheolydd cymhwyster ym mhob gwlad.

Am ragor o wybodaeth

Mae gan bob bwrdd arholi wybodaeth ac animeiddiad defnyddiol ar eu gwefannau sy'n rhoi manylion pellach o'r broses hon.

Rhagor o wybodaeth: www.cymwysteraucymru.org E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
T: 01633 373 222 @cymwysterau_cym